# Dogfen ir Cyhoedd

Dr Gwynne Jones
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| **CYD-BWYLLGOR ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG (MÔN A GWYNEDD)** | **SPECIAL EDUCATIONAL NEEDS JOINT-COMMITTEE (MÔN & GWYNEDD)** |
| **DYDD GWENER, 18 MAWRTH 2016 at 10.30 o'r glochy bore** | **FRIDAY, 18 MARCH, 2016 at 10:30 a.m.** |
| **YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI** | **COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI** |
| **Swyddog Pwyllgor**   **Ann Holmes 01248 752518** | **Committee Officer** |

**<u>AELODAU/MEMBERS:</u>**

Cynghorwyr/Councillors:

**<u>CYNGOR GWYNEDD COUNCIL</u>**

Annwen Hughes, Elin Walker Jones, Linda Ann Jones, Beth Lawton, Caerwyn Roberts *(Cadeirydd/Chair)* Peter Read, Eirwyn Williams.

**<u>CYNGOR SIR YNYS MÔN/ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL</u>**

Derlwyn Hughes, Trefor Lloyd Hughes, Llinos M. Huws *(Is-Gadeirydd/Vice-Chair),* Gwilym O. Jones, R. Meirion Jones, J. Arwel Roberts, Ieuan Williams

**<u>YR EGLWYS/THE CHURCH</u>**

Yr Eglwys yng Nghymru/The Church in Wales
Yr Eglwys Babyddol Rufeinig/The Roman Catholic Church
Mr Rheinallt Thomas (Eglwysi Rhyddion/Free Churches)

**R H A G L E N**

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

2 **COFNODION CYFARFOD 20 TACHWEDD, 2015** (Tudalennau 1 - 8)

Cyflwyno cofnodion cyfarfod blaenorol y Cyd-Bwllgor a gynhaliwyd ar 20 Tachwedd, 2015.

3 **ADOLYGU STRWYTHUR Y BARTNERIAETH AR Y CYD** (Tudalennau 9 - 10)

Cyflwyno adroddiad ar y cyd gan Gynghorau Ynys Môn a Gwynedd.

*(Bydd y Cyd-Bwyllgor yn cael cyflwyniad ar y mater – copi o'r cyflwyniad ar gael ar wahân)*

4 **CYLLIDEB 2016-17** (Tudalennau 11 - 12)

Cyflwyno adroddiad ynglyn â chyllideb 2016-17.

5 **ADOLYGIAD BLWYDDYN ARIANNOL 2015-16**

Cyflwyno adolygiad diweddaraf o flwyddyn ariannol 2015/16. *(Adroddiad llafar)*

6 **YR UNED DDARPARU - TYMOR YR HYDREF** (Tudalennau 13 - 16)

Cyflwyno adroddiad y Prif Seicolegydd Addysgol ar waith yr Uned Ddarparu yn ystod tymor yr Hydref 2015.

7 **SWYDDDI SEICOLEGWYR - TREFNIADAU ÔL-HYFFORDDIANT** (Tudalennau 17 - 20)

Cyflwyno adroddiad y Prif Seicolegydd Addysgol ynglyn â'r trefniadau ôl-hyfforddiant a'r goblygiadau cyllidol.

8 **CYFARFODYDD Y CYD-BWYLLGOR AM Y FLWYDDYN I DDOD**

Dydd Gwener, 24 Mehefin, 2016 am 10:30 y.b. yng Nghaernarfon
Dydd Gwener, 23 Medi, 2016 am 2:00 y.p. yn Llangefni *(Cyfrifon)*
Dydd Gwener, 18 Tachwedd, 2016 am 10:30 y.b. yng Ngaernarfon
Dydd Gwener, 17 Mawrth, 2017 am 10:30 y.b. yn Llangefni

# CYD-BWYLLGOR ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Tachwedd, 2015

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd E. Caerwyn Roberts (Cyngor Gwynedd) (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Llinos M.Huws (Cyngor Sir Ynys Môn) (Is-gadeirydd) |
| | **Cyngor Gwynedd** |
| | Y Cynghorwyr Elin Walker Jones, Beth Lawton, Eirwyn Williams |
| | **Cyngor Sir Ynys Môn** |
| | Y Cynghorwyr Gwilym O. Jones, R. Meirion Jones, Ieuan Williams |
| **WRTH LAW:** | Prif Seicolegydd Addysgol (Mr Gareth Payne)<br>Swyddog Addysg (ADY) (CSYM) (Dr Einir Thomas)<br>Uwch Reolwr Cynhwysiad (Gwynedd) (Mr Gwern ap Rhisiart)<br>Uwch Gyfrifydd Addysg (Gwynedd) (Mrs Kathy Bell)<br>Swyddog Pwyllgor (CSYM) (Ann Holmes) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Annwen Hughes, Peter Read (Cyngor Gwynedd),<br>Derlwyn Hughes, Trefor Lloyd Hughes, J. Arwel Roberts (CSYM)<br>Mr Rheinallt Thomas, Mrs Delyth Molyneux (Pennaeth Dysgu, CSYM) |

---

Estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes i bawb oedd yn bresennol a chyfeiriodd at absenoldeb y Cynghorwyr Peter Read a Trefor Lloyd Hughes oherwydd salwch. Estynnodd y Cadeirydd ei ddymuniadau gorau personol a dymuniadau ei gyd-Aelodau at y Cynghorydd Read a'r Cynghorydd Hughes am adferiad llwyr a buan.

**1. DATGAN DIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

**2. COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 26 MEHEFIN, 2015**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod diwethaf y Cydbwyllgor AAA a gynhaliwyd ar 26 Mehefin, 2015 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

**3. YR UNED DDARPARU AR GYFER ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG**

Cyflwynwyd adroddiad yr Uned Ddarparu ar gyfer Anghenion Addysgol Arbennig ar weithgareddau a gyflawnwyd yn ystod tymor yr haf, 2015 i'r Cyd-bwyllgor ei ystyried.

Amlygodd y Prif Seicolegydd Addysgol ddatblygiadau mewn perthynas â newidiadau staff yn y Gwasanaeth Gweinyddol, y Gwasanaeth Athrawon Arbenigol a'r Gwasanaeth Seicolegwyr Addysgol a lle'r oedd y newidiadau hynny'n golygu colli swyddi h.y. trwy ymddiswyddo, newid swydd neu gwblhau cyfnod secondiad. Esboniodd yr effaith bosib ar y gwasanaeth perthnasol a'r camau lliniaru a gymerwyd naill ai drwy gynnig i lenwi swydd wag neu drwy aildrefnu llwythi gwaith o fewn y cyflenwad staff cyfredol. Cyfeiriodd y swyddog at y pwyntiau canlynol -

DRAFT

- Bydd dau o'r cynorthwywyr gweinyddol o fewn y Gwasanaeth Gweinyddol yn gadael y gwasanaeth, y naill oherwydd ymddeoliad (0.4 llawn amser) a'r llall (llawn amser) i swydd allanol. Er y gobeithir y gellir llenwi'r swydd llawn amser am gyfnod dros dro, y bwriad yw peidio â llenwi'r swydd 0.4 arall.
- Mae'r Gwasanaeth Clyw yn parhau i weithredu ar sail tîm cryf gyda thri o athrawon cymwys, sy'n gyfwerth â 2.6 llawn amser, yn ogystal ag athro llawn amser sydd heb gymhwyso ac sy'n hyfforddi ar hyn o bryd. Er bod un o'r athrawon yn ymddeol adeg y Nadolig ac y bydd y gwasanaeth yn colli cynorthwy-ydd profiadol, bydd y gwasanaeth yn parhau i fod â thîm sy'n gyfwerth â 2.7 o athrawon llawn amser o'r Nadolig ymlaen.
- Mae 2.1 o athrawon llawn amser cyfwerth ar hyn o bryd yn y Gwasanaeth Nam ar y Golwg ynghyd â dau gynorthwy-ydd cymwys (cyfwerth ag 1.6 llawn amser).
- Bu gostyngiad yn y gwasanaeth ar gyfer iaith a chyfathrebu ac yn arbennig ar gyfer awtistiaeth. Mae dau athro o fewn y gwasanaeth ar hyn o bryd, cyfwerth ag 1.8 llawn amser. Mae'r gwasanaeth wedi colli dau athro (h.y. cyfwerth ag 1 llawn amser) ynghyd â chynorthwy-ydd profiadol a oedd ar secondiad o Wynedd. Mae'r tîm ar hyn o bryd yn ei chael yn heriol cwrdd â'r holl anghenion ar draws y ddau awdurdod.
- Mae'r gwasanaeth ar gyfer anawsterau meddygol a chorfforol yn parhau i weithredu ar sail dau athro, un llawn amser a'r llall sy'n gweithio i'r gwasanaeth am 0.3 llawn amser ond sydd hefyd yn darparu 0.2 i'r gwasanaeth gweledol.
- Mae'r Gwasanaeth Seicoleg Addysgol yn parhau i weithredu gyda llai o staff nag arfer gydag un uwch seicolegydd ar secondiad i Gyngor Gwynedd ar hyn o bryd. Mae dau seicolegydd rhan-amser wedi gadael y gwasanaeth sy'n golygu bod modd cefnogi dau seicolegydd dan hyfforddiant ar gwrs proffesiynol yng Nghaerdydd. Mae'r gwasanaeth yn parhau i weithredu system lle mae seicolegydd wedi'i neilltuo ar gyfer ysgolion unigol ac mae nifer o sesiynau'n cael eu trefnu ar gyfer pob ysgol; mae'r gwasanaeth yn ceisio gwneud newidiadau i'r system hon er mwyn sicrhau bod yr holl ysgolion yn cael eu gwasanaethu'n deg. Mae cyfwerth â 5.9 o seicolegwyr llawn amser (10 o unigolion) o fewn y gwasanaeth ynghyd ag un hyfforddai profiadol sy'n gallu cymryd rhai o'r ysgolion dan oruchwyliaeth. Bydd y seicolegydd dan hyfforddiant wedi cymhwyso erbyn haf 2016 ac mewn amgylchiadau ariannol mwy ffafriol byddai'r tîm yn hapus i ystyried ei chyflogi hi.
- Mae'r data mewn perthynas â datganiadau terfynol a gynhyrchwyd o fewn yr amserlen statudol yn ystod blwyddyn academaidd 2013/14 yn dangos, er bod nifer y datganiadau newydd yng Ngwynedd wedi gostwng ers y llynedd, fod y nifer yn Ynys Môn yn debyg i'r flwyddyn flaenorol.

Yn y drafodaeth fanwl a ddilynodd, gwnaed y pwyntiau canlynol -

- Nododd y Cyd-bwyllgor ei bryder ynghylch y gostyngiadau yn y gwasanaethau iaith, cyfathrebu ac awtistiaeth, a gofynnodd am eglurhad ar y cynlluniau i fynd i'r afael ag anghenion plant ar draws y sbectrwm awtistig o ganlyniad, yn enwedig yn wyneb y pwysau parhaus ar y tîm.

  Dywedodd y Prif Seicolegydd Addysg fod gan y gwasanaeth nifer o staff dros dro ac oherwydd y pwysau ariannol mae sawl contract yn debygol o ddod i ben yn yr haf. Er y cynhelir trafodaethau ynghylch y sefyllfa yn fuan, oherwydd bod y rhan fwyaf o'r gwariant yn yr Uned Ddarparu ar staff, yn y tymor hir hwn yw'r prif faes sydd ar gael i'r Cyd-bwyllgor fedru adnabod arbedion. Ar ben hynny, ystyrir ei bod yn rhy gynnar i fod yn cymryd camau penodol hyd nes y ceir canlyniad taith Strategaeth Cyngor Gwynedd ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiant drwy brosesau democrataidd y Cyngor.

  Er gwaethaf y ffaith fod Gwynedd wedi bod yn datblygu Strategaeth ar gyfer ADY a Chynhwysiad, dywedodd Uwch Reolwr Cynhwysiant Cyngor Gwynedd fod yna blant sydd yn y system ar hyn o bryd y mae'n rhaid bodloni eu hanghenion. Cafwyd trafodaethau gyda Swyddog Addysg ADY Ynys Môn gyda golwg ar sefydlu fforwm i hwyluso mynediad i'r ddarpariaeth; yn hytrach nag edrych yn benodol ar y mater staffio teimlir bod angen rhoi mwy o bwyslais ar effeithiolrwydd y prosesau a'r arferion cyfredol er mwyn sicrhau'n well eu bod yn addas i'r pwrpas ac i leihau'r pwysau gwaith ar staff a hefyd i alluogi ymateb mwy cynlluniedig yn hytrach nag un adweithiol. Gellid ymestyn y dull hwn o weithredu i'r holl dimau o fewn yr Uned Ddarparu AAA.

Dywedodd yr Uwch Gyfrifydd Addysg bod darpariaeth hefyd o fewn y ddau awdurdod ar gyfer plant sydd ag anghenion awtistig.

- Croesawodd y Cyd-bwyllgor yr ymagwedd flaengar a fabwysiadwyd mewn perthynas â hyfforddi dau seicolegydd addysg ond mynegodd bryder, yn wyneb y cyd-destun ariannol, am y rhagolygon tymor hir ar gyfer eu cyflogi'n barhaol o fewn y Cyd-bwyllgor. Nododd y Cyd-bwyllgor y byddai'n resyn pe collid eu gwasanaethau o ystyried yr ymdrechion a'r buddsoddiad a wnaed i gael llefydd ar eu cyfer ar y cwrs proffesiynol a oedd wedi'i ailsefydlu ym Mhrifysgol Caerdydd. Felly, gofynnodd y Cyd-bwyllgor am adroddiad ar y trefniadau a wnaed gyda'r Seicolegwyr sydd dan hyfforddiant ynghylch eu hymrwymo i'r Cyd-bwyllgor am gyfnod ar ôl iddynt gwblhau eu hyfforddiant a'r goblygiadau ariannol ar gyfer y ddwy swydd.
- Mynegodd y Cyd-bwyllgor bryder ynglŷn â lefel yr ansicrwydd a'r risg mewn perthynas â'r sefyllfa staffio gan ystyried y gallai hynny beri anesmwythyd i staff, a phwysleisiodd yr angen i roi sefydlogrwydd i staff i'r graddau yr oedd modd gwneud hynny. Ceisiodd y Cydbwyllgor sicrwydd bod gan y gwasanaeth adnoddau digonol i ddarparu ar gyfer anghenion yr holl blant hynny sydd angen cefnogaeth ac nad oes yr un ohonynt dan anfantais oherwydd bod adnoddau'n dynn. Awgrymwyd bod adroddiad yn cael ei ddarparu er mwyn rhoi trosolwg o'r sefyllfa gyfredol fel bod modd i'r ddwy sir osod cyfeiriad strategol.
- Awgrymodd y Cyd-bwyllgor nad yw'n cwrdd yn ddigon aml i allu cael trosolwg effeithiol o ddatblygiadau a chyfeiriodd at ganslo cyfarfod mis Medi fel enghraifft o hynny.

Dywedodd Uwch Reolwr Cynhwysiant Cyngor Gwynedd fod Gwynedd wedi cynnal adolygiad strategol o anghenion dysgu ychwanegol a chynhwysiant a'i fod yn glir ynghylch y math o ganlyniadau y mae'n dymuno eu cyflawni ar gyfer plant a phobl ifanc sydd angen cefnogaeth a sut y gellir gwneud hynny.  Anhawster sy'n dod i'r amlwg i'r Cyd-bwyllgor yw'r gwahaniaeth yn ymagwedd y ddau awdurdod o ran cwrdd ag anghenion – mae'r dull Gweithredu gan yr Ysgol a'r dull Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy yn rhoi mwy o bwyslais ar ysgolion ac fe all hynny, yn ei dro, arwain at fwy o alw am wasanaethau. Mae Cyngor Gwynedd yn ceisio datblygu ymagwedd fwy ataliol i leihau'r galw am ddarpariaeth ychwanegol.

Cadarnhaodd Swyddog Addysg ADY Ynys Môn bod rhai gwahaniaethau yn ymagwedd yr awdurdodau. Yn Ynys Môn mae cyllid wedi cael ei ddatganoli i ysgolion ac mae llwybrau y cytunwyd arnynt rhwng yr Awdurdod ac ysgolion cynradd ar gyfer cael mynediad i gymorth. Er bod y galw am ddatganiadau yn Ynys Môn yn gyson, mae'r nifer yn uwch yn y cyfnod meithrin eleni. Nododd y Cyd-bwyllgor fod angen monitro'r cynnydd hwn i nodi tueddiad posib. Dywedodd y Swyddog Addysg ADY bod anghenion y plant hyn yn ddwys ac yn mynd y tu hwnt i'r ddarpariaeth Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy a bod hyn efallai'n cynrychioli patrwm a allai barhau. Dywedodd yr Uwch Reolwr Cynhwysiad mai'r dull o weithredu yng Ngwynedd yw trwy Gynllun Datblygu Unigol yn hytrach na Datganiad, ond gyda chefnogaeth hefyd gan ysgolion a'r Unedau Blynyddoedd Cynnar. Trwy ddefnyddio'r Unedau Blynyddoedd Cynnar, mae angen llai o gymorth wedyn yn y brif ffrwd oherwydd y mewnbwn, yr ymyrraeth a'r targedu cynnar.

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi ei gynnwys.**

**CAMAU YN CODI:**

- **Bod y Cyd-bwyllgor yn cael adroddiad ar y trefniadau ôl-hyfforddiant a wnaed gyda'r Seicolegwyr dan Hyfforddiant a'r goblygiadau ariannol ar gyfer y ddwy swydd.**
- **Bod y Cyd-bwyllgor yn cael trosolwg o'r sefyllfa yn y ddau awdurdod o ran y dull o ddiwallu anghenion plant sydd angen cymorth ychwanegol oherwydd ADY.**

DRAFT

**4. CÔD ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL – DRAFFT**

Cyflwynwyd adroddiad y Prif Seicolegydd Addysg a oedd yn ymgorffori'r fersiwn ddrafft o'r Côd Anghenion Dysgu Ychwanegol i'w ystyried gan y Cyd-bwyllgor.

Dywedodd y Prif Seicolegydd Addysg fod y Côd drafft wedi cael ei gyhoeddi i gyd-fynd â'r Mesur Drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru), sy'n destun ymgynghoriad tan 18 Rhagfyr, 2015 ac i helpu i lunio ymateb iddo. Mae'r Mesur yn cynnwys cynigion am system newydd o ddarparu ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Aeth y Swyddog ymlaen i amlygu meysydd lle mae'r Côd drafft newydd yn wahanol i'r Côd Ymarfer cyfredol a'r goblygiadau tebygol i'r awdurdodau a'r Cyd-bwyllgor o ran amser ac adnoddau o ganlyniad i'r newidiadau a gynigir.

Nododd y Cyd-bwyllgor y pwyntiau canlynol -

- Bod angen gwaith pellach ar y Côd drafft i'w ddatblygu i fod yn gôd ymarfer ac yn ganllaw ymarferol.
- Bod gan y Côd drafft oblygiadau i'r holl asiantaethau sy'n cyfrannu tuag at gwrdd ag anghenion plant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, a bydd angen newidiadau o ran ymarfer.
- Teimlir bod y Côd drafft yn benagored mewn sawl maes ac nad yw'n rhoi diffiniad digon penodol o anghenion dysgu ychwanegol.
- Bod gan y Côd drafft oblygiadau sylweddol o ran y disgwyliadau ar ysgolion gan ei fod yn rhoi'r un lefel o hawliau cyfreithiol i blant ag anghenion dysgu ychwanegol ar ddau ben y continwwm p'un a yw'r anghenion hynny'n rhai ysgafn, cymedrol neu aciwt.
- Fodd bynnag, mewn achosion lle mae'r ysgol o'r farn bod yr anghenion hynny y tu hwnt i'w gallu i gwrdd â nhw, gall gyfeirio'r mater at yr awdurdod lleol. Gan nad yw'r Côd yn darparu meini prawf penodol er mwyn penderfynu trothwy gallu, y perygl yw y bydd yn rhaid i awdurdodau ddatblygu eu meini prawf eu hunain gan arwain felly at amrywiadau cenedlaethol a allai fod yn fawr.
- Bod cyfle wedi'i golli i sicrhau unffurfiaeth a chysondeb ar draws Cymru drwy ddatblygu un gyfres glir o feini prawf a fyddai'n berthnasol i bob un o'r 22 awdurdod lleol trwy'r wlad.
- Bod y Prif Seicolegydd Addysgol wedi drafftio ymateb i'r Mesur drafft ar ran Gwynedd ac Ynys Môn.

Gofynnodd y Cyd-bwyllgor am gopi o ymateb y Prif Seicolegydd Addysgol i'r Mesur drafft, a bod Aelodau'r Cyd-bwyllgor sy'n dymuno ychwanegu eu sylwadau eu hunain ar gynnwys y Mesur yn gwneud hynny drwy'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd fel bod yna hefyd ymateb ar ran y Cyd-bwyllgor ei hun.

**Penderfynwyd nodi'r Côd drafft ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol a chrynodeb y Prif Seicolegydd Addysg o'r prif newidiadau.**

**CAM GWEITHREDU YN CODI: Bod y Prif Seicolegydd Addysg yn anfon copi o'r ymateb i'r Mesur drafft i Aelodau'r Cyd-bwyllgor.**

**5. CYLLIDEB Y CYD-BWYLLGOR AAA YN 2015/16**

Cyflwynwyd adroddiad Pennaeth Gwasanaeth Cyllid Cyngor Gwynedd a oedd yn cynnwys Cyllideb y Cyd-bwyllgor AAA ar gyfer 2015/16 i'w ystyried a'i gymeradwyo gan y Cyd-bwyllgor.

Adroddodd yr Uwch Gyfrifydd Addysg fod y gyllideb yn cynnwys darpariaeth ar gyfer y newidiadau arferol e.e. chwyddiant, cynnydd mewn cyfraniadau yswiriant gwladol ac ati, ond hefyd ostyngiad o 10% yn y cyfraniad gan Gyngor Sir Ynys Môn. Dyma'r tro cyntaf i doriadau cyllidebol beidio â chael eu gweithredu ar y ddwy ochr gan y ddwy sir sy'n golygu bod cyfraniad canrannol Gwynedd i'r Cyd-bwyllgor wedi cynyddu o 61.37% i 64.27% (£752,046) gyda chyfraniad Ynys Môn yn gostwng o 38.63% i 35.73%

(£464,637 i £418,174). Dywedodd y Swyddog fod angen i Ynys Môn adnabod toriad o 10% yn barhaol, sef £55,210 (11.9% mewn termau real) a bod angen i swyddogion o’r Cyd-bwyllgor a’r ddau awdurdod gytuno ar y toriadau arfaethedig i'w cyflwyno i'r Cyd-bwyllgor.

Dywedodd Arweinydd Cyngor Sir Ynys Môn y byddai'n adrodd yn ôl i Bennaeth Dysgu’r Cyngor i sefydlu statws y trafodaethau o ran adnabod toriadau gwasanaeth sy'n gyfwerth â’r gostyngiad o £55k yn y cyfraniad a wneir gan Ynys Môn.

**Penderfynwyd cymeradwyo a mabwysiadu'r gyllideb ar gyfer 2015/16 a gofyn i Swyddogion gyflwyno toriadau arfaethedig i'r cyfarfod nesaf.**

**DIM CAMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL YN CODI**

**6. ADOLYGIAD O GYFRIFON Y CYD-BWYLLGOR AM 2015/16**

Cyflwynwyd adroddiad Pennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd a oedd yn ymgorffori adolygiad o gyfrifon y Cyd-bwyllgor am 2015/16 i'w ystyried gan y Cyd-bwyllgor.

Adroddodd yr Uwch Gyfrifydd Addysg fel a ganlyn -

- Bod newidiadau hyd yma yn 2015/16 i sefydliad staffio’r Cyd-bwyllgor ar draws y Gwasanaeth Seicolegwyr Addysgol, y Gwasanaeth Athrawon Arbenigol a’r Gwasanaethau Gweinyddol yn golygu gorwariant net o £36k ar gostau staff yn 2015/16 o gymharu â'r gyllideb.
- Bydd tua £9k o gostau hyfforddi’n cael eu hariannu o arbedion ar gyflogau Seicolegwyr Addysg yn unol â chynllun strategol i sicrhau seicolegwyr cymwys Cymraeg yn y dyfodol.
- Bod cynnydd net o £17k yng nghostau rhent y Cyd-bwyllgor yn dilyn ail-leoli i Swyddfeydd Penrallt sy'n golygu bod angen adnabod arbedion parhaol i ariannu'r cynnydd hwn. Roedd costau ail-leoli unwaith ac am byth o tua £4k yn 2015/16.
- Bod y Cyd-bwyllgor wedi tynhau gwariant ar adnoddau oherwydd y gorwariant a bod hynny wedi arwain at gyfanswm arbedion net o £11k.
- Oherwydd y sefyllfa staffio a diffyg capasiti i gynnal hyfforddiant, mae'r targed incwm a osodwyd yn afrealistig erbyn hyn. Mae'n debygol y bydd diffyg o £8k yn yr incwm eleni ac o’r herwydd mae angen adnabod arbedion parhaol i bontio'r bwlch hwn.
- Bod yr ystyriaethau uchod yn arwain at orwariant o £65k yn 2015/16.

Dywedodd y Swyddog bod gan y Cyd-bwyllgor falansau cyfun o £150k ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2014/5. Mae defnyddio £65k o’r balansau i gysoni'r gorwariant yn 2015/16 yn lleihau'r balansau i £85k ar 31 Mawrth, 2016. Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi gweithredu toriad o 10% yn ei gyfraniad at gyllideb y Cyd-bwyllgor sy'n gadael diffyg o £55k mewn termau gwirioneddol ar gyfer y Cyd-bwyllgor i’w bontio’n barhaol. Mae angen adnabod darpariaeth wahaniaethol rhwng Gwynedd ac Ynys Môn i ddelio â'r toriad hwn. Awgrymodd y Swyddog hefyd eu bod o bosib wedi cyrraedd sefyllfa lle mae angen ystyried rhannu’r balansau rhwng Ynys Môn a Gwynedd i ganiatáu i’r ddau awdurdod benderfynu ar wahân sut y gellid defnyddio eu cyfran o’r balansau hynny.

Dywedodd y Swyddog wrth y Cyd-bwyllgor ei bod yn pryderu am sefyllfa ariannol y Cyd-bwyllgor wrth symud ymlaen i 2016/17 yn arbennig o ran yr ansicrwydd ynghylch y cyfeiriad a’r amserlen.

**Penderfynwyd -**

- **Derbyn yr adroddiad a chymeradwyo defnyddio £65k o'r balansau cyfun i ariannu'r gorwariant yn 2015/16.**
- **Gofyn i Swyddogion symud yn gyflym i nodi’r gostyngiad yn y gwasanaethau ar gyfer Ynys Môn er mwyn nodi’r arbedion o £55k y mae eu hangen.**
- **Rhagamcanu sefyllfa ariannol 2016/17 cyn gynted â phosibl a chymryd camau i ddatrys unrhyw broblemau ariannol.**

DRAFT

- **Gofyn i Gynghorau Gwynedd a Môn am arweiniad ynghylch cyllideb 2016/17.**

**DIM CAM GWEITHREDU YCHWANEGOL YN CODI**

## 7. STRATEGAETH CYNGOR GWYNEDD AR GYFER ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL A CHYNHWYSIANT

Rhoddodd Uwch Reolwr Cynhwysiad Cyngor Gwynedd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Cyd-bwyllgor ar lafar ynghylch bwrw ymlaen â'r Strategaeth yn dilyn adolygu'r ddarpariaeth a phrofiadau plant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yng Ngwynedd. Dywedodd fod bwriadau deddfwriaethol a phwysau ariannol wedi cyflymu'r amserlen weithredu. Bydd adroddiad ar y newidiadau arfaethedig i'r Gwasanaeth ADY a Chynhwysiad yn cael ei ystyried gan Bwyllgor Craffu Gwasanaethau Cyngor Gwynedd yr wythnos nesaf a chaiff yr adroddiad ei gyflwyno wedi hynny i'r Cabinet ei gymeradwyo ym mis Rhagfyr, 2015. Mae proses ymgynghori gynhwysfawr wedi'i chynnal gyda thua 400 o randdeiliaid ac mae'r adborth ohoni wedi cyfrannu at lunio Strategaeth ADY diwygiedig sy'n cynnwys rhai addasiadau o ran y model darparu ond mae ei egwyddorion sylfaenol yn aros yr un fath. Cadarnhaodd y Swyddog bod y Strategaeth ADY ddiwygiedig yn cynnig digomisiynu'r Cyd-bwyllgor AAA a symud i fodelau lleol o ddarpariaeth yn seiliedig ar ardaloedd Arfon, Dwyfor a Meirionnydd.

Gwnaeth y Cyd-bwyllgor y pwyntiau canlynol -

- Y byddai wedi bod yn ddefnyddiol i'r Cyd-bwyllgor fod wedi cael yr adroddiad sydd i'w gyflwyno i Bwyllgor Craffu Gwasanaethau Cyngor Gwynedd i'w gynorthwyo i ddeall y sefyllfa a'r manylion ynghylch y cynigion ar gyfer newid sydd dan ystyriaeth gan Wynedd, a'i bod yn siomedig nad oedd ar gael i'r Aelodau yn y cyfarfod hwn.
- Ei fod yn resyn nad oedd Aelodau'r Cyd-bwyllgor wedi cael eu hysbysu a'u cynnwys mewn trafodaethau ynglŷn â datblygu modelau darparu fel rhan o'r Strategaeth fel y cytunwyd y byddai'n digwydd yn y cyfarfod blaenorol.
- Er bod Cynghorau Gwynedd ac Ynys Môn yn rhannu'r un weledigaeth o ran ceisio sicrhau'r profiadau a'r canlyniadau gorau i blant a phobl ifanc sydd ag anawsterau dysgu ychwanegol nododd y Cyd-bwyllgor fod strategaethau'r ddau gyngor ar gyfer cyflawni'r weledigaeth yn wahanol i raddau sydd bellach yn codi amheuaeth ynghylch dyfodol tymor hir y Cyd-bwyllgor. Nodwyd hefyd bod angen egluro'r sefyllfa o safbwynt rôl Ynys Môn yn y bartneriaeth.

**Penderfynwyd nodi'r sefyllfa a'r wybodaeth a gyflwynwyd.**

**DIM CAM GWEITHREDU YCHWANEGOL YN CODI**

## 8. CYFARFOD NESAF Y CYD-BWYLLGOR

Nodwyd bod cyfarfod nesaf y Cyd-bwyllgor yn cael ei gynnal am 10:30 am ddydd Gwener 18 Mawrth, 2016 yn Llangefni.

**Y Cynghorydd Caerwyn Roberts**
**Cadeirydd**

DRAFT

DRAFT

This page is intentionally left blank

Adroddiad i'r Cyd Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig
18 Mawrth 2016

Eitem: Adolygu strwythur y bartneriaeth ar y cyd
Cyflwynir gan: Swyddogion Gwynedd ac Ynys Môn

Mae Swyddogion o Gyngor Gwynedd ac Ynys Môn wedi bod yn cyfarfod yn rheolaidd ers dechrau Ionawr 2016. Cafodd y datganiad yma ei lunio ar y cychwyn er mwyn cadarnhau'r cyd-weithio:

Yn dilyn trafodaeth bellach ar Strategaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol Gwynedd, cytunwyd i lunio un Strategaeth Gyffredin ar y cyd a fydd yn cyfarch anghenion disgyblion a phobl ifanc Gwynedd ag Ynys Môn mewn ffordd effeithiol ag effeithlon. Bydd hyn yn seiliedig ar ail fodelu a chryfhau'r bartneriaeth bresennol a chynnwys yr holl ystod o wasanaethau a darpariaethau.

Cafwyd cytundeb i gyd weithio ar y blaenoriaethau isod:

- Adolygu'r meini prawf ar y cyd gan sicrhau cysondeb traws sirol. Bydd angen sicrhau fod y meini prawf yn eglur i bawb ar bob lefel.
- Cytunwyd ar y cyd i ystyried cynnal panel traws sirol ar gyfer y plant mwyaf dwys. Byddwn yn ystyried Ynys Môn yn rhan o'r model darparu a chefnogi ar lefel ardal yn yr un ffordd ac y byddwn yn ystyried Arfon, Meirion a Dwyfor o fewn Gwynedd,
- Cytunwyd i adolygu'r dull o ddatganoli arian ADY i ysgolion prif lif ar y cyd gan sicrhau'r defnydd mwyaf effeithiol o gyllid. Yn ogystal byddwn yn adolygu'r drefn monitro ar y cyd. Bydd ffocws clir ar ddeilliannau, ac mewn ymateb i hyn byddwn yn cysoni ein gweithdrefnau cywain a dadansoddi data.
- Am y tro cyntaf cytunwyd i ffurfio Gwasanaeth Integredig cyfan gwbl ar y cyd fydd yn cynnwys cefnogaeth ar gyfer yr ystod lawn o anghenion. Bydd yn cynnwys er enghraifft, Seicolegwyr Addysg, Athrawon Arbenigol ac Uwch Gymorthyddion Arbenigol. Mae gwaith pellach i'w wneud er mwyn cytuno ar swydd ddisgrifiadau a thelerau gwaith. Byddwn yn parhau ac yn ymestyn y drafodaeth a'r gwasanaeth iechyd i gynnwys Gwynedd ac Ynys Môn.
- Cytunwyd i sefydlu dau weithgor penodol ar y cyd i edrych mewn i'r ddarpariaeth ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar ac ar gyfer y Ddarpariaeth ôl 16.
- Bydd angen llunio rhaglen hyfforddiant ar y cyd, ar gyfer pob lefel a fydd yng nghyd fynd a blaenoriaethu'r gwasanaethau.
- Cytunwyd i sefydlu'r gwasanaeth fel rhan annatod o'r ddau awdurdod. Bydd yn cael ei reoli, ei gydlynu, a'i arwain gan y ddau awdurdod.
- Dyhead y ddau awdurdod yw sefydlu craidd y Tîm Integredig ar y cyd erbyn Medi 2016, gyda newidiadau pellach ym Medi 2017.

Cyflwynwyd Strategaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad Gwynedd i'r Cabinet ar y 19 Ionawr.
Penderfyniad:

1. Parhau i gynnal trafodaethau gyda chyngor Sir Ynys Môn er mwyn ymchwilio'r cyfle i lunio Strategaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol Gyffredin a fydd yn cyfarch anghenion y disgyblion a'r bobl ifanc mewn modd effeithiol ac effeithlon
2. Cymeradwyaeth y Cabinet o Strategaeth Cyngor Gwynedd ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad; gan ddal sylw i'r bwriad yn 1.

3. Cymeradwyaeth o'r Achos Busnes – sef buddsoddiad unwaith ac am byth o hyd at £1,380,131 er mwyn dangos arbediad blynyddol parhaol o leiaf £808,461.

Bydd Cyngor Sir Ynys Môn yn cyflwyno papur i 'r Pwyllgor Gwaith ar y 14 Mawrth yn adolygu trefniadau cydweithio rhwng Môn a Gwynedd yn y maes ADYaCh

Byddent yn gofyn am ganiatâd y Pwyllgor Gwaith i:

- Cydweithio efo swyddogion Gwynedd a'r CBAAA i ail-fodelu'r gweithlu sy'n bresennol o fewn y CBAAA, gan fabwysiadu cynllun staffio newydd rhwng Medi 2016- Ebrill 2017.
- Cydweithio efo swyddogion Gwynedd a'r CBAAA i ail-fodelu'r gweithlu sy'n bresennol o fewn y gwasanaeth cynhwysiad yn llawn erbyn Medi 2017.
- Cynllunio'r bartneriaeth newydd i gynnig arbedion o 10% neu oddeutu £500,000 dros ddwy flynedd, i'w wireddu'n llawn erbyn 2018/9.
- Cynllunio strwythur llywodraethiant ac atebolrwydd diwygiedig ar y cyd rhwng y ddau awdurdod, i'w gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith erbyn Mehefin 2016.
- Cynllunio cyfnod trosiannol o lywodraethiant ddeuol rhwng y CBAAA a'r Bartneriaeth ADY Môn/Gwynedd ddiwygiedig.
- Rhannu gwybodaeth gydag ysgolion, rhieni a rhanddeiliaid ar y model arfaethedig, yn ystod tymor yr haf 2016.

Bydd adroddiad ac argymhelliad llawn yn dod i sylw'r Pwyllgor Gwaith Ynys Môn am benderfyniad ym mis Mehefin 2016 ar sail y cytundeb bartneriaeth drafft a fydd wedi'i gytuno rhwng y ddwy sir erbyn y dyddiad yma.

Mae swyddogion y ddwy sir wedi cyfarfod yn wythnosol o fis Ionawr ymlaen, i gyd-greu Strategaeth Gyffredin o fewn dogfen gynhwysfawr gan fanylu ar y gwasanaethau unigol.
Bydd y ddogfen yn cynnwys eglurder o ran rolau ac atebolrwydd ynghyd a llywodraethu ac ymgysylltu.
Yn ogystal bydd nod, amcanion, mesuryddion, mynediad a strwythur staffio pob gwasanaeth yn cael ei egluro mewn manylder. Mae'r Meysydd Gwasanaeth yn cynnwys:

| <u>CYNHWYSIAD:</u> | <u>ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL:</u> | <u>ARWEINIOL/ CYDLYNOL:</u> |
|---|---|---|
| Gwasanaeth Cwnsela Addysg | Cyfathrebu a Rhyngweithio | Gwasanaeth Seicolegol |
| Ymddygiad | Synhwyrau | Addysg |
| Gwasanaeth Lles Addysg | Corfforol a Meddygol | Gweinyddol ac Ansawdd |
| Saesneg Iaith Ychwanegol | Llythrennedd a Rhifedd | Cydlynwyr ADY |
| Plant mewn Gofal | Blynyddoedd cynnar | |
| Teithwyr | | |
| Addysg Gartref Plant Sâl | | |
| Addysg tu allan i'r ysgol | | |

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **Cyd-Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig** |
| DYDDIAD | **18 Mawrth 2016** |
| TEITL YR ADRODDIAD | **Cyllideb 2016/17** |
| ADRODDIAD GAN | **Pennaeth Gwasanaeth Cyllid** |

**Cyllideb 2016/17**

Mae'r gyllideb yn ymgorffori darpariaeth ar gyfer –
- +1% i seicolegwyr ac athrawon o Medi 2016
- +1% staff Gweinyddol o Ebrill 2016
- incrementau cyflogau
- addasiad yswiriant gwladol – cyfwerth £22mil o gynnydd
- effaith blwyddyn gyfan o gynnydd blwydd-dal athrawon o 14.1% i 16.48% ym Medi 2015
- chwyddiant cyffredinol
- angen gweithredu toriad 10% Ynys Môn 2015/16

Sefydliad staffio y Cyd-Bwyllgor ydi –
- 8.1 Seicolegwyr
- 7.6 Athrawon Arbenigol
- 6.4 Staff Gweinyddol

Gwir sefyllfa staffio Ebrill 2016 ydi –
- 8.7 Seicolegwyr (cynnwys 2 hyfforddai)
- 8.0 Athrawon Arbenigol
- 1.4 Uwch Gymorthyddion
- 5.4 Staff Gweinyddol

Oherwydd bod 2 hyfforddai o fewn y tîm seicolegol, gydag 1 hyfforddai yn derbyn bwrsari, mae arbediad o £51mil o gymharu gwir gost 2016/17 yn erbyn cyllideb sefydliad. Mae arbediad yng nghostau staffio y tîm gweinyddol o £38mil oherwydd swyddi gwag. Mae cost ychwanegol o £49mil o gyflogi athrawon ac uwch gymorthyddion yn 2016/17.

Fel sydd wedi'i adrodd eisoes mae cost rhent a gwasanaethau wedi cynyddu o ad-leoli swyddfeydd yn adeilad Penrallt yng Nghaernarfon.

Mae cyfraniad Gwynedd yn cynyddu o £752mil i £777mil a chyfraniad Ynys Môn yn cynyddu o £418mil i £432mil yn 2016/17. Mae cyfraniad Ynys Môn yn ddibynnol ar weithredu arbedion gwerth £55,210 ar wasanaethau sy'n digwydd yn Ynys Môn yn ystod 2016/17 h.y. os na weithredir bydd cyfraniad Ynys Môn yn cynyddu £55,210.

**Argymhelliad**

Gofynnir i'r Cyd-Bwyllgor gymeradwyo a mabwysiadu'r gyllideb am 2016/17 gan ofyn i swyddogion gyflwyno toriadau arfaethedig yn y cyfarfod nesaf.

# CYD-BWYLLGOR ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG

## CYLLIDEB 2016/17

| | sefydliad staffio Ebrill 2014 | Cyllideb 2015/16 £ | Chwyddiant a chostau eraill £ | Arfarnu swyddi £ | Newidiadau staffio £ | **Cyllideb 2016/17 £** | gwir staffio Ebrill 2016 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwariant** | | | | | | | |
| Gweithwyr | | | | | | | |
| Cyflogau | | | | | | | |
| - Seicolegwyr | (8.1) | 536,310 | 11,617 | | -51,560 | **496,367** | (8.7) |
| - Athrawon Arbenigol | (7.6) | 390,400 | 15,565 | | 49,169 | **455,134** | (8.0 + 1.4) |
| - Gweinyddol | (6.4) | 193,380 | 5,749 | 24,402 | -38,200 | **185,331** | (5.4) |
| Hyfforddiant | | 9,520 | 0 | | 0 | **9,520** | |
| Yswiriant Atebolrwydd | | 3,000 | 1,300 | | 0 | **4,300** | |
| Adeilad | | | | | | | |
| Trethi | | 4,940 | 266 | | 0 | **5,206** | |
| Rhent a Gwasanaethau | | 11,630 | 16,671 | | 0 | **28,301** | |
| Cludiant | | | | | | | |
| Costau Teithio | | 50,780 | 0 | | 0 | **50,780** | |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | | | | | | | |
| Adnoddau / Deunydd Swyddfa | | 17,480 | 0 | | 0 | **17,480** | |
| Hysbysebu Cyfrifon Terfynol | | 0 | 1,080 | | 0 | **1,080** | |
| Ffi Archwilio | | 0 | 1,000 | | 0 | **1,000** | |
| Ffôn | | 8,960 | -5,960 | | 0 | **3,000** | |
| Post | | 1,880 | 0 | | 0 | **1,880** | |
| Costau Canolog Ynys Môn | | 1,630 | 0 | | 0 | **1,630** | |
| Costau Canolog Gwynedd | | 4,960 | 50 | | 0 | **5,010** | |
| Arbedion i'w darganfod - Ynys Môn | | -55,210 | 0 | | 0 | **-55,210** | |
| **Cyfanswm Gwariant** | | 1,179,660 | 47,338 | 24,402 | -40,591 | **1,210,809** | |
| **Incwm** | | | | | | | |
| Incwm Allanol | | 9,440 | -7,440 | | 0 | **2,000** | |
| Cyfraniad Cyngor Gwynedd | 64.27% | 752,046 | 35,206 | 15,683 | -26,088 | **776,847** | |
| Cyfraniad Cyngor Sir Ynys Môn | 35.73% | 418,174 | 19,572 | 8,719 | -14,503 | **431,962** | |
| **Cyfanswm Incwm** | | 1,179,660 | 47,338 | 24,402 | -40,591 | **1,210,809** | |
| **Cyfanswm Gwariant Net** | | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** | |

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | Cyd-Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig |
| **DYDDIAD:** | 18eg Mawrth 2016 |
| **TEITL YR ADRODDIAD**: | Adroddiad yr Uned Ddarparu AAA |
| **GWEITHREDU**: | Ystyried yr adroddiad |

**CEFNDIR**: Disgrifir gwaith Uned Ddarparu'r Cyd-Bwyllgor AAA yn ystod Tymor y Hydref, 2015.

# Adroddiad yr Uned Ddarparu AAA

## 1.0 Gweinyddu Prosesau Asesu ac Adolygu

Rydym yn parhau efo’r Rheolwr Gwasanaeth sydd efo ni ar secondiad.

Yn dilyn ymddiswyddiad dwy o’r staff Gweinyddol ym mis Rhagfyr 2015, penodwyd Cymhorthydd Clerigol ADY llawn amser dros dro hyd at ddiwedd mis Mai eleni. Ni fydd penderfyniad ynglŷn â llenwi’r swydd yn barhaol hyd nes bydd y gwaith o adolygu trefniadau a systemau gweinyddol yr Uned Ddarparu wedi ei gwblhau.

Mae’r Uned wedi bod yn eithriadol o brysur yn gweithredu ar yr holl adolygiadau blynyddol blwyddyn 6, ynghyd ag adolygiadau’r ysgolion datganoledig, a dderbyniwyd yn Rhagfyr ac Ionawr. Gellir adrodd bod y datganiadau diwygiedig i gyd wedi eu cwblhau erbyn y dyddiad perthnasol, sef 15fed o Chwefror.

## 2.0 Gwasanaeth Athrawon Arbenigol

Rydym yn gweithredu ar hyn o bryd efo’r staff canlynol.

Gwasanaeth Clyw:
Cyfwerth â 2.7 athrawes lawn amser, tri unigolyn.
Mae’r tair athrawes yn athrawon cymwysedig, bellach.
Bydd cytundeb yr un sydd newydd hyfforddi’n dod i ben yn yr haf.

Gwasanaeth Golwg:
Cyfwerth â 2.2 athrawes lawn amser, tri unigolyn, un (1.0) sydd yn dal i hyfforddi.
Cyfwerth â 1.6 cymhorthydd llawn sydd â lefel Braille uchel.

Gwasanaethau Iaith a Chyfathrebu:
Cyfwerth â 1.8 athrawes lawn amser.
Mae anawsterau cynnal gwasanaeth digonol ym Môn yn enwedig yn y maes hwn ar hyn o bryd.

Gwasanaeth Anawsterau Corfforol a Meddygol:
Cyfwerth â 1.3 athrawes lawn amser.

## 3.0 Gwasanaeth Seicoleg Addysgol

Ar hyn o bryd, rydym yn gweithredu efo:
Cyfwerth â 5.9 seicolegydd (9 unigolyn), ac mae dau seicolegydd tan hyfforddiant ar leoliad efo ni o’r cwrs yng Nhaerdydd.
Mae’r prif seicolegydd a’r ddwy uwch seicolegydd ag amser wedi ei neilltuo am ddyletswyddau heblaw gweithio mewn ysgolion, ac mae un o’r seicolegwyr tan hyfforddiant ar fin gorffen ei chwrs ac yn cymryd rhai ysgolion.

Mae hyn yn golygu bod cyfwerth â 4.9 seicolegydd yn gweithio'n uniongyrchol yn yr ysgolion, 1.8 ym Môn (37%) a 3.1 yng Ngwynedd (63%).

Mae hyn yn cymharu yn anffafriol â'r ffigur oedd yn bodoli yn Chwefror 2012, lle roedd gennym gyfwerth â 8.1 seicolegydd.

Rydym hefyd wrth gwrs yn cefnogi'r ddwy seicolegwraig tan hyfforddiant yng Nghaerdydd a fydd yn barod i weithio fel seicolegwyr ym Medi 2017.

Gyda'r tîm yma, rydym yn gallu cynnal gwasanaeth sylfaenol i bob ysgol yn y ddau awdurdod, sef trefnu i bob ysgol gael seicolegydd dynodedig, ac ymgynghori'n rheolaidd efo'r ysgolion ynglŷn â phlant unigol a materion eraill perthnasol i Anghenion Addysgol Ychwanegol.

## 4.0 Gwybodaeth ychwanegol

Mae'r tablau isod yn dangos y nifer o ddatganiadau terfynol a gyhoeddwyd o fewn yr amserlen statudol o 26 wythnos yn ystod y cyfnod Medi 1af 2015 – 29 Chwefror 2016 (Dangosyddion Perfformiad Cenedlaethol).

| **Dangosyddion Perfformiad 26 wythnos Gwynedd yn ystod y 6 mis rhwng 1/9/15-29/6/16** | |
|---|---|
| Cyfanswm nifer o ddatganiadau terfynol newydd | 24 |
| Nifer o ddatganiadau terfynol **oddi mewn** i 26 wythnos **gydag** eithriadau | 7 |
| Nifer o ddatganiadau terfynol **oddi mewn** i 26 wythnos **heb** eithriadau<br>h.y. oddi mewn i'r terfyn amser a dim eithriadau wedi eu cofnodi | 4 |
| Nifer o ddatganiadau terfynol **dros** 26 wythnosau **gydag** eithriadau<br>h.y. dros y terfyn amser oherwydd, neu'n rhannol oherwydd, ffactorau allanol | 12 |
| Nifer o ddatganiadau terfynol **dros** 26 wythnos **heb** eithriadau<br>h.y. tu hwnt i'r terfyn amser a dim eithriadau wedi eu cofnodi (neb yn hwyr yn cyflwyno eu cyngor o asiantaethau allanol a dim ffactorau oedd y tu hwnt i reolaeth yr adran addysg a/neu'r Cydbwyllgor AAA) | 1 |
| Dangosydd Perfformiad 15a:<br>O'r cyfanswm o achosion ar gyfer y 6 mis cyntaf o 2015/16, beth oedd y ganran **oddi mewn** i'r 26 wythnos, os oedd yna eithriad ai peidio? | 36.8% |
| Dangosydd Perfformiad 15b:<br>O'r achosion lle nad oedd yna eithriadau, beth oedd y ganran o'r rhai a gwblhawyd oddi mewn i'r 26 wythnos? | 80% |

| **Dangosyddion Perfformiad 26 wythnos Ynys Môn yn ystod y 6 mis rhwng 1/9/15-29/2/16** | |
|---|---|
| Cyfanswm nifer o ddatganiadau terfynol newydd | 28 |
| Nifer o ddatganiadau terfynol **oddi mewn** i 26 wythnos **gydag** eithriadau | 2 |
| Nifer o ddatganiadau terfynol **oddi mewn** i 26 wythnos **heb** eithriadau<br>h.y. oddi mewn i'r terfyn amser a dim eithriadau wedi eu cofnodi | 3 |
| Nifer o ddatganiadau terfynol **dros** 26 wythnosau **gydag** eithriadau<br>h.y. dros y terfyn amser oherwydd, neu'n rhannol oherwydd, ffactorau allanol | 23 |
| Nifer o ddatganiadau terfynol **dros** 26 wythnos **heb** eithriadau<br>h.y. tu hwnt i'r terfyn amser a dim eithriadau wedi eu cofnodi (neb yn hwyr yn cyflwyno eu cyngor o asiantaethau allanol a dim ffactorau oedd y tu hwnt i reolaeth yr adran addysg a/neu'r Cydbwyllgor AAA) | 0 |
| Dangosydd Perfformiad 15a:<br>O'r cyfanswm o achosion ar gyfer y 6 mis cyntaf o 2015/16, beth oedd y ganran **oddi mewn** i'r 26 wythnos, os oedd yna eithriad ai peidio? | 8% |
| Dangosydd Perfformiad 15b:<br>O'r achosion lle nad oedd yna eithriadau, beth oedd y ganran o'r rhai a gwblhawyd oddi mewn i'r 26 wythnos? | 100% |

**Adroddiad y Prif Seicolegydd Addysgol Ynglŷn â'r Trefniadau Ôl-hyforddiant a'r Goblygiadau Cyllidol**

**Cynllun y Gwasanaeth Seicoleg Addysgol i'r Dyfodol**

**Nifer y Seicolegwyr Addysgol ar Hyn o Bryd.**

| seicolegydd | amser i gyd | amser mewn ysgolion | amser ym Môn | amser yng Ngwynedd |
|---|---|---|---|---|
| Prif Seicolegydd | 1.0 | 0.1 | 0.1 | - |
| Uwch Seicolegydd | 0.2 | - | - | - |
| Uwch Seicolegydd | 0.8 | 0.6 | 0.1 | 0.5 |
| Seicolegydd | 0.6 | 0.6 | 0.1 | 0.5 |
| Seicolegydd | 0.6 | 0.6 | 0.1 | 0.5 |
| Seicolegydd | 0.8 | 0.8 | 0.1 | 0.7 |
| Seicolegydd | 0.5 | 0.5 | 0.5 | - |
| Seicolegydd | 0.8 | 0.8 | 0.5 | 0.3 |
| Seicolegydd | 0.6 | 0.6 | 0.3 | 0.3 |
| Seicolegydd tan hyf | 1.0 | 0.3 | - | 0.3 |
| | | | | |
| Cyfanswm | 6.9 | 4.9 | 1.8 (37%) | 3.1 (63%) |

**Cynllun Arfaethedig ar gyfer y Dyfodol**

Dyma'r cynllun rydym wedi ystyried ar gyfer y drefn newydd yng Ngwynedd, cyn i Ynys Môn ddod i mewn i'r trafodaethau.

| | |
|---|---|
| Prif Seicolegydd | 1.0 |
| Uwch Seicolegydd arbenigol | 1.0 |
| Uwch seicolegydd arbenigol | 1.0 |
| Uwch seicolegydd arbenigol | 1.0 |
| Seicolegydd | 1.0 |
| Seicolegydd | 1.0 |
| Seicolegydd | 1.0 |
| | |
| Cyfanswm | 7.0 |

Gyda Môn yn ymuno yn y drefn, byddai hyn yn codi i'r isod.

| | |
|---|---|
| Prif Seicolegydd | 1.0 |
| Uwch Seicolegydd arbenigol | 1.0 |
| Uwch seicolegydd arbenigol | 1.0 |
| Uwch seicolegydd arbenigol | 1.0 |
| Seicolegydd | 1.0 |
| Seicolegydd | 1.0 |
| Seicolegydd | 1.0 |
| Seicolegydd | 1.0 |
| Seicolegydd | 1.0 |
| Seicolegydd | 1.0 |
| | |
| Cyfanswm | 10.0 |

**Gwasanaethau eraill**
Fel rydym wedi eu trafod, mae gan seicolegwyr addysgol y sgiliau i allu cyfrannu mewn nifer o feysydd heblaw gweithio gyda phlant yn uniongyrchol mewn ysgolion, yn cynnwys yr isod.

**1. Hyfforddiant i ysgolion unigol neu glystyrau o ysgolion**
Lle mae'r mae angen am hyfforddiant mewn rhyw faes penodol yn codi trwy i'r seicolegydd ymgynghori ag ysgol, ac mae'n trefnu hyn yn lleol gyda, weithiau, cefnogaeth aelod(au) eraill o'r tîm.

**2. Hyfforddiant ar lefel awdurdod**
Lle mae'r awdurdod yn trefnu i'r Gwasanaeth Seicoleg Addysgol gynnal hyfforddiant mwy ffurfiol, ar faterion ynglŷn ag ADY, yn cynnwys anawsterau dysgu, anawsterau ymddygiad, technegau a ffyrdd gweithio amrywiol, canlyniadau ymchwil diweddar yn y maes, a.y.y.b.

**3. Cydweithio efo swyddogion addysg**
Wrth ddatblygu trefniadau mwy strategol ynglŷn â darpariaeth a threfniadau ar gyfer ADY, ac wrth ymwneud ag achosion unigol cymhleth.

**4. Cynnal gwaith ymchwil**
Gweithredu cynlluniau i ddarganfod gwybodaeth newydd, er enghraifft pa mor effeithiol yw math penodol o ymyrraeth neu ddarpariaeth, i gymharu ag eraill.

**5. Cynhyrchu adnoddau**
Mae prinder o offerynnau asesu'n enwedig, yn yr iaith Gymraeg yn fwy penodol.

**6. Mynychu hyfforddiant**
Er mwyn sicrhau ein bod yn cadw'n gyfredol yn y maes, i fwydo'n gwaith bob dydd, a bod yn sylfaen i'r hyfforddiant rydym yn gallu ei roi i eraill. Mae hefyd yn angenrheidiol yn ôl y rheoliadau cenedlaethol ar gyfer seicolegwyr addysgol ein bod yn cadw'n gyfredol yn ein sgiliau a'n dulliau gweithio.

**7. Cydweithio efo asiantaethau allanol**
Mae cyfarfodydd rheolaidd efo asiantaethau megis CAMHS, Derwen/GAP, Therapi Iaith a Lleferydd, Gwasanaeth Troseddu, ac mae lle i gydweithio efo nhw ynglŷn ag achosion a materion unigol.

**8. Datblygiadau lleol diweddar**
Mae awdurdod Gwynedd, erbyn hyn ar y cyd ag awdurdod Ynys Môn, eisoes yn gwneud cynlluniau sydd yn rhoi mwy o ddyletswyddau i seicolegwyr, yn enwedig wrth gydweithio gydag athrawon arbenigol ym meysydd megis Blynyddoedd Cynnar, Gwybyddiaeth a Dysgu, Iaith, Lleferydd a Chyfathrebu, Ymddygiad, Emosiynol a Chymdeithasol, Synhwyraidd, Corfforol a Meddygol.

**9. Datblygiadau cenedlaethol arfaethedig**
Bydd gan yr awdurdod addysg ddyletswydd i wneud trefniadau Anghenion Addysgol Ychwanegol i ystod ehangach o blant a phobl ifanc yn y blynyddoedd nesaf, yn cynnwys plant a phobl ifanc i fyny at 25ml oed, a cholegau Addysg Bellach.

**Nifer o Seicolegwyr at y Dyfodol**

Mae'r ffigurau yma'n awgrymu y byddwn ni angen pedwar seicolegydd newydd i sicrhau'r lefel yma o wasanaeth.

Gellir hysbysebu ar gyfer yr amser y daw'r trefniadau newydd i rym.

Pe byddai hyn, sydd yn ymddangos yn annhebygol, *wedi* Medi 2017, yr amser y mae'r ddwy seicolegydd rydym ni'n eu cefnogi'n cwblhau'u cwrs, byddem yn gallu cyfweld â nhw ac unrhyw ymgeiswyr priodol eraill ar gyfer y swyddi hyn. Rydym yn ymwybodol bellach am seicolegwyr Cymraeg fyddai efallai â diddordeb.

Pe byddai'r trefniadau newydd yn dod i rym cyn y dyddiad hwn, awgrymaf i ni ystyried cyfweld y ddwy seicolegwraig sydd yng Nghaerdydd ar gyfer y swyddi.

Byddai modd eu cyflogi ar gyfer Medi 2017, neu lenwi'r ddwy swydd yn unig a chyfweld eto yn agosach at yr amser y byddant yn gorffen yn y Brifysgol.

**Gareth Payne Mawrth 2016**

This page is intentionally left blank